10A | Llan Ffestiniog i Chwarel Manod

O dafarn y Pengwern, trowch i'r dde gan groesi'r ffordd i ddilyn llwybr ger yr arwydd i Raeadr Cynfal. Cerddwch ar draws y cae, drwy'r giât at giât arall ar eich chwith gan ddilyn yr arwydd i gyfeiriad y Rhaeadr. Croeswch y cae, gan anelu at bwynt tua 50 metr i'r chwith o'r trawsnewidydd ar bolyn, lle mae pont droed yn ngwaled y cae. Dringwch y bryn i gyrraedd giât arall ac ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr nes i chi gyrraedd dwy giât wrth ymyl ei gilydd. Ewch drwy'r giât ar y llaw chwith, gan ddilyn yr arwydd i 'Raeadr Cynfal'. Dilynwch y lôn lydan laswelltog ar hyd ymyl y wal/ffens ar eich chwith. Ewch drwy'r giât arall yn y cae, a mynd ymlaen nes i chi gyrraedd Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ceunant Cynfal'. Ar ôl mynd drwy'r giât addurniadol, trowch i'r dde ar unwaith a mynd i lawr y grisiau at yr olygfan. Wrth adael y fan hon, trowch i'r dde ar hyd llwybr cul i ddilyn yr afon, ac ymunwch â'r brif lwybr a throi i'r dde.

Dilynwch y llwybr hwn, i lawr y grisiau, dros yr afon ac i fyny'r grisiau nes i chi gyrraedd man lle mae sawl llwybr yn croesi. Dilynwch y llwybr ar y chwith. Mae'r llwybr yn rhedeg ar hyd ymyl y ceunant, ac Afon Cynfal ar eich chwith. Croeswch yr hanner-camfa a throi i'r dde i gyrraedd lôn, ac yna trowch i'r chwith. Wrth y gyffordd ar y ffordd, ewch i'r chwith nes i chi ddod at y briffordd yr A470. Croeswch y ffordd gan gadw llygad ar y traffig. Ewch i'r caeau dros y gamfa sydd y tu ôl i ben pella canllaw'r bont.

Dilynnwch y ffens, â'r afon ar eich chwith, nes i'r llwybr troi tuaf at y dde, sydd i fyny llethr graddol ag o dan y linellau pŵer. Cerddwch o amgylch y boncen serth, gan gadw ar y chwith. Mae'r llwybr cyhoeddus yn mynd i'r chwith ond mae'r ardal yn eithaf corslyd ac efallai y byddai'n well gennych gerdded o amgylch y gors, gan fynd yr ochr uchaf nes i chi gyrraedd bwlch yn y wal ger ymyl isaf y llethr. Ar ôl mynd trwy'r bwlch, dilynwch adfeilion y wal ar eich chwith. Ewch drwy bwlch arall yn y wal gan droi i'r chwith i gyrraedd ardal gorsiog arall lle mae llwybr amlwg yn eich arwain at gamfa i'r coed. Trowch i'r chwith gan ddilyn y lôn goedwig, gan fynd heibio hen adeilad ar eich chwith cyn cyrraedd nant, sydd i'w groesi ar arglawdd. Cyn i chi gyrraedd y nant, trowch i'r chwith ar hyd llwybr anwastad i gyrraedd pont droed bren dros yr afon.

Croeswch y cae, gan ddringo i fyny at y giât mochyn yn y gornel bellaf ar y dde. Trowch i'r dde ar hyd y lôn. Pan fyddwch yn cyrraedd y fan lle mae'r lonydd yn fforchio, dilynwch y llwybr ar y chwith sy'n arwain at Fferm Cwm. Ewch ar hyd y lôn hon, a throi i'r chwith i mewn i'r cae ychydig cyn i chi gyrraedd y fferm. Dilynwch y wal ar eich dde, gan groesi camfa yn y pen draw, ac yna bydd y llwybr yn mynd i'r chwith i fyny'r llethr serth. Dilynwch y llwybr glaswelltog i fyny'r rhedyn, gan ddilyn terfyn y cae yn weddol agos a chadw'r nant ar eich llaw chwith. Lle mae'r nant yn troi ymhellach i'r chwith ger rhaeadr fach, ewch i'r dde, gan barhau gyda'r ffens ar eich chwith.. Pan fyddwch wedi cyrraedd y tir cymharol wastad, cewch olygfa wych o Raeadr y Cwm. O'ch blaen, mae'r llwybr amlwg yn dilyn cyfuchliniau'r dyffryn serth. Ewch ymlaen ar hyd y ffens nes i chi gyrraedd giât mochyn i'r ffordd wrth arwydd llwybr troed.

Uchod: Gwesty Cymunedol Y Pengwern
Dde: Bryngaer Bryn y Castell

ARIANNU: Magnox; Cronfa CAE Parc Cenedlaethol Eryri; Sefydliad Foyle; Sefydliad Garfield Weston; Ymddiriedolaeth Oakdale; Sefydliad Cymunedol Cymru; HF Holidays; Horizon; First Hydro; Ymddiriedolaeth Laspen; Cyngor Tref Bethesda; Cyngor Tref Ffestiniog; Elusen Ogwen; Llechi Cymru; Menter Môn; PAVO; Ymddiriedolaeth Ninevah; Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones; Mantell Gwynedd; Sefydliad Ashley; Rehau Plastics; Sefydliad Blakemore; Dŵr Cymru.

Mae Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri yn Elusen Gofrestredig, Rhif 1182188.